

## Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r Lleoliad: Ysbyty Priory, Pentre'r Eglwys

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ysbyty Priory, Pentre'r Eglwys fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.<sup>1</sup> Mae'r ysbyty wedi'i leoli yn Nhonteg ac wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau adsefydlu ac adfer annibynnol i uchafswm o 12 oedolyn sy'n fenywod ag anabledau dysgu. Ar adeg y gwiriad ansawdd, roedd saith claf yn yr ysbyty.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar <sup>2</sup>10 Tachwedd 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

---

<sup>1</sup> Mae Ysbyty Priory, Pentre'r Eglwys yn un o nifer o leoliadau gofal iechyd a reolir gan y Priory Group.

<sup>2</sup> Ystyr rheolwr cofrestredig yw unigolyn sydd wedi'i benodi o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr sefydliad.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Gwnaeth y lleoliad ein hysbysu cyn y gwiriad ansawdd fod yr ysbyty wedi gweld cynnydd yn aciwtedd<sup>3</sup> y cleifion a dderbyniwyd dros yr 18 mis diwethaf. Mae hyn wedi golygu y bu'n rhaid i'r gwasanaeth wneud newidiadau sylweddol i'r amgylchedd er mwyn sicrhau ei fod yn addas i ddarparu ar gyfer cleifion o'r fath; mae'r waliau wedi'u cryfhau, mae drysau cadarn wedi'u gosod a diweddarwyd yr ystafelloedd gwely er mwyn sicrhau eu bod yn fwy diogel i'r cleifion. Gofynnir am sicrwydd pellach y tu hwnt i'r gweithgaredd gwirio ansawdd hwn er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas am gleifion o'r lefel aciwtedd uwch sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o Archwiliad Iechyd a Diogelwch a gwblhawyd yn ddiweddar er mwyn helpu i roi sicrwydd bod amgylchedd yr ysbyty'n addas ac yn ddiogel i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gwnaethom nodi bod camau gweithredu wedi'u cymryd i leihau'r risg o'r materion a nodwyd yn yr archwiliad.

Gan fod yr ysbyty'n fach, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi bod yn anodd rhoi newidiadau ar waith a fyddai'n galluogi'r cleifion i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd yn ystod COVID-19. Er mwyn helpu i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, mae'r ward a'r cleifion wedi cael eu trin fel 'aelwyd'. Roedd modd gwneud hyn oherwydd y trosiant isel o gleifion, ac a bu o gymorth wrth geisio lleihau effaith COVID-19 ar y cleifion a rhoi elfen o gysondeb iddynt o ran eu harferion dyddiol. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion wedi gallu treulio amser gyda'i gilydd mewn ardaloedd cymunedol, ar yr amod nad oes ganddynt unrhyw symptomau.

Yn ogystal â hyn, gwnaed newidiadau er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff rhag trosglwyddo COVID-19 yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Cawsom wybod bod yr uwch-dîm arwain wedi cynnal asesiad risg ar gyfer defnyddio hylif diheintio dwylo heb alcohol<sup>4</sup>, a'i fod ar gael ar y ward. Mae posteri ac arwyddion hawdd eu darllen hefyd wedi'u harddangos er mwyn atgoffa'r cleifion a'r staff am bwysigrwydd golchi dwylo'n rheolaidd a chadw pellter lle y bo'n bosibl.

Eglurodd y rheolwr cofrestredig fod un newid allweddol wedi'i roi ar waith er mwyn helpu'r

<sup>3</sup> Mae aciwtedd yn cyfeirio at y dull o fesur dwysedd y gofal nyrsio sydd ei angen ar y claf.

<sup>4</sup> Gellir ystyried bod risg uchel y bydd cleifion yn llyncu hylif diheintio dwylo mewn lleoliadau iechyd meddwl

---

cleifion i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Mae amseroedd bwyd y cleifion wedi newid a cheir dwy sesiwn ar wahân erbyn hyn er mwyn sicrhau bod digon o le rhwng y cleifion a'r staff os bydd arsylwadau ychwanegol yn cael eu cynnal gyda chleifion<sup>5</sup>. Cawsom wybod bod y trefniadau ar gyfer ymweliadau yn ystod COVID-19 wedi newid i gyfathrebu ar-lein yn sgil y cyfyngiadau ar deithio yn ystod y cyfnod clo. Mae'r cleifion hefyd wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau gan ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain neu'r iPads a'r ffonau a ddarparwyd i'r cleifion gan yr ysbyty. Yn ystod y cyfnodau pan gafodd y cyfyngiadau symud eu codi, roedd y cleifion yn gallu gweld ymwelwyr yn yr awyr agored ar safle'r ysbyty, fel yr ardd, neu roedd hawl ganddynt gyfarfod â'u teuluoedd yn yr awyr agored yn y gymuned leol.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y ffordd y rheolwyr y newidiadau i'r broses o ganiatáu i gleifion adael o dan Adran 17<sup>6</sup> yn ystod COVID-19. Nid oedd modd i'r cleifion gael gwyliau yn ystod y cyfnodau clo ac roedd y staff yn siopa ar eu rhan. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod diweddar o gyfyngiadau lleol a'r cyfnod atal byr cenedlaethol, sefydlodd yr ysbyty 'siop' ar y safle er mwyn galluogi'r cleifion i brynu eu heitemau hanfodol eu hunain a rhoi rhywfaint o annibyniaeth iddynt. Cafodd gwyliau i'r cleifion ei ailgyflwyno wrth i'r cyfnodau clo ddod i ben, ac roedd y staff yn cynnal asesiadau risg mewn siopau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn addas ac yn ddiogel i'r cleifion ymweld â nhw a chydymffurfio â'r canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff wedi bod yn monitro effaith y newidiadau hyn ar y cleifion, a bod cyfarfod wythnosol ar adolygu risgiau ac ymarfer ataliol wedi'i sefydlu'n ddiweddar er mwyn helpu i nodi unrhyw risgiau a allai beri i ymddygiad waethygu. Gwnaethom dderbyn data ar nifer y digwyddiadau a'r dulliau ataliol a ddefnyddiwyd gan y staff yn ddiweddar, a oedd yn dangos nad yw'r ysbyty wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymddygiadau heriol drwy gydol y pandemig.

Cawsom wybod bod archwiliadau pwyntiau clymu'n cael eu cynnal bob chwe mis a chyflwynwyd y ddau archwiliad blaenorol i ni; roedd camau wedi'u cymryd mewn perthynas â phob un o'r risgiau a nodwyd.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

---

<sup>5</sup> Caiff arsylwadau ychwanegol eu cynnal pan fydd risg o hunan-niwed neu risg i eraill wedi'i nodi, a dylid naill ai cadw golwg ar y claf neu sicrhau ei fod o fewn cyrraedd bob amser.

<sup>6</sup> Mae Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i gleifion a gedwir adael yr ysbyty am reswm a chyfnod penodol er mwyn helpu'r cleifion i adfer a chael eu rhyddhau i'r gymuned unwaith eto.

---

Gwnaethom dderbyn amrywiaeth o weithdrefnau gweithredu safonol penodol ar gyfer COVID-19 a gynhyrchwyd gan dîm rheoli canolog y Priory Group, ac roeddent ar gael ar gyfer y staff yn yr ysbyty. Roeddent yn nodi llwybrau penodol i'r staff eu dilyn er mwyn rheoli cleifion yn ddiogel, gan gynnwys sgrinio a chyfathrebu'n ddiogel wrth dderbyn a rhyddhau cleifion. Cawsom wybod bod tymheredd y cleifion yn cael ei gofnodi ddwywaith y dydd er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw achosion o COVID-19 a amheuir yn cael eu nodi'n gynnar. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gweithdrefnau y byddai'r ysbyty'n eu dilyn i ynysu cleifion yn ddiogel pe byddai ganddynt symptomau COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys ynysu cleifion a oedd wedi cael prawf positif yn y bynglo ar wahân sy'n rhan o'r ysbyty, sy'n wag ar hyn o bryd. Roedd yn braf gweld nad oedd unrhyw achosion positif o COVID-19 ymhlith cleifion yr ysbyty ar adeg y gwiriad ansawdd.

Gwnaethom edrych ar y weithdrefn gweithredu safonol ar gyfer defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a gwelsom ei bod yn cynnwys canllawiau lleol a ddatblygwyd gan y Priory Group, yn ogystal â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf a gyhoeddwyd gan y llywodraeth. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig na fu unrhyw achosion o brinder PPE i'r staff ers dechrau COVID-19. Caiff gwiriadau dyddiol eu cynnal o'r stoc PPE a chânt eu hadrodd i'r tîm rheoli canolog, sy'n trefnu i'r stoc gael ei hailenwi yn ôl y gofyn.

Gwelsom fod polisi Trefniadau Atal a Rheoli Heintiau (IPC) ar waith a'i fod yn gyfredol ac yn cynnwys y mesurau IPC a roddwyd ar waith yn yr ysbyty. Cawsom wybod bod yr ysbyty fel arfer yn cynnal archwiliadau IPC blynyddol ond y bydd yn newid i gynnal archwiliadau IPC chwarterol â mwy o ffocws yn fuan, yn unol â chyfarwyddyd y tîm rheoli canolog â'r nod o nodi camau gweithredu a gwelliannau mwy lleol. Gwnaethom edrych ar yr archwiliad IPC diweddaraf a gafodd ei addasu i ganolbwyntio ar drefniadau COVID-19 a gwelsom nad oedd yn nodi unrhyw faterion na phryderon. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff naill ai wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar IPC neu ar fin cwblhau hyfforddiant gloywi.

Cawsom wybod bod gan y staff fynediad i hwb ar y fewnrwyd, a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'r hwb yn cynnwys y wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf ar bopeth sy'n ymwneud â COVID-19 a'i nod yw sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn eu deall. Caiff datblygiadau sylweddol neu frys eu cyfathrebu'n gyflym mewn cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn yr holl wybodaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd unrhyw gleifion wedi cael heintiau drwy ofal iechyd ers dechrau COVID-19.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom wybod nad oedd unrhyw hyfforddiant ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer y staff i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â COVID-19. Rydym yn argymhell bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth, megis ar wisgo a diosg PPE yn ddiogel, ar gael i'r staff a bod yr ysbyty'n datblygu proses i roi sicrwydd y gall y staff ddangos eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd mewn perthynas â defnyddio PPE yn ddiogel.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Trafododd y rheolwr cofrestredig y trefniadau a oedd ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cymysgedd priodol o sgiliau a'r nifer priodol o staff ar y safle yn ystod pob sifft. Caiff rotas electronig eu defnyddio i reoli dewisiadau gweithio'r staff, rheoli absenoldebau ac addasu i unrhyw gynnydd yn y galw ar adnoddau megis arsylwadau ychwanegol neu aciwtedd uwch ymhlith y cleifion. Gwnaethom edrych ar nifer y staff a oedd ar ddyletswydd ar ddiwrnod y gwiriad ansawdd a nodwyd ei fod yn briodol o ystyried nifer y cleifion.

Mae'r staff yn derbyn Adolygiadau Datblygiad Personol (PDR) blynyddol i drafod amcanion a helpu i nodi unrhyw ofynion dysgu. Gwelsom dystiolaeth bod 58 y cant o'r staff wedi derbyn eu Hadolygiadau Datblygiad Personol a chawsom wybod bod y 42 sy'n weddill yn aelodau newydd a fydd yn cael eu hadolygiadau ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn derbyn goruchwyliaeth glinigol er mwyn eu helpu i ddatblygu, â'r nod o wella'r gofal i gleifion.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ymhlith y staff yn uchel, gydag 87 y cant ohonynt yn cydymffurfio. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig yr heriau y mae'r ysbyty'n eu hwynebu er mwyn sicrhau y gallai'r staff gwblhau eu hyfforddiant yn ystod COVID-19 yn sgil y gostyngiad yn nifer y cyrsiau hyfforddi wyneb yn wyneb sy'n cael eu cynnig. Cynhaliwyd asesiad risg gan yr uwch-reolwyr o ran y modiwlau hyfforddi sydd heb gael eu cwblhau ac mae hyfforddiant ar-lein wedi'i drefnu a'i flaenoriaethu i fynd i'r afael â sgiliau allweddol, megis hyfforddiant ar Atal a Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol a Chynnal Bywyd Brys.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig nodi'r cymorth sydd wedi bod ar gael i'r staff i'w helpu i gynnal eu hiechyd a'u lles ers dechrau COVID-19. Cafodd strategaeth llesiant newydd ei datblygu a'i hanfon at bob aelod o'r staff, ac mae llinell gymorth y cyflogwr ar gael os bydd angen cyngor ar y staff ar amrywiaeth o faterion personol. Yn ogystal â hyn, trefnwyd mentrau megis sesiynau ymwybyddiaeth o straen, bagiau rhoddion i'r staff, rafflau a dathlu digwyddiadau megis Calan Gaeaf er mwyn helpu i wella cymhelliant y staff a chodi moral.

Cawsom wybod bod cyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol wedi parhau i gael eu cynnal bob pedair wythnos drwy gydol y pandemig er mwyn helpu i sicrhau bod anghenion y cleifion yn parhau i gael eu diwallu. Roedd gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, megis eiriolwyr, yn dal i

---

fod ar gael i'r cleifion o bell. Diogelwyd hawliau'r cleifion i'w hachosion gael eu hadolygu gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a threfnwyd i gyfarfodydd ddigwydd gan ddefnyddio ffôn cynadledda'r ysbyty.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



# Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Priory, Pentre'r Eglwys

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r gwasanaeth gael sicrwydd bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â COVID-19 a bod y staff yn gallu dangos eu cymhwysedd mewn perthynas â defnyddio PPE yn ddiogel.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15	Ers yr adolygiad Haen 1, mae llyfryn "COVID-19 - Cofnod o'r Wybodaeth a Ddarparwyd i'r Staff" wedi cael ei ddatblygu ac wedi'i lofnodi gan bob aelod o'r staff fel tystiolaeth o'r wybodaeth a ddarparwyd am COVID-19, gan gynnwys Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPS) ar gyfer PPE. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol yn cynnwys gwybodaeth am wisgo a diosg PPE.  Caiff y camau gweithredu ychwanegol canlynol eu cymryd:  Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn	Diana Tyrrell, Rheolwr Cofrestredig	7/12/2020

			<p>dolen sy'n arwain at fideo ar-lein am wisgo a diosg PPE. Y Rheolwr Cofrestredig fydd yn gyfrifol am wneud hyn.</p> <p>Caiff cofnod o gymhwysedd mewn perthynas â defnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, ei ddatblygu gan y Rheolwr Cofrestredig.</p> <p>Gofynnir i bob aelod o'r staff ddangos sut mae defnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a llofnodi'r ffurflenni cymhwysedd. Caiff hyn ei gwblhau gan Arweinydd Rheoli Heintiau'r safle</p>		<p>7/12/2020</p> <p>31/12/2020</p>
--	--	--	---	--	------------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Diana Tyrrell

Dyddiad: 20 Tachwedd 2020